# Hwyaid lledaenu

# hwyaidlledaenu

Mae podlediadau wedi dod yn hynod boblogaidd dros y deng mlynedd diwethaf – mae pobl yn treulio mwy o amser nag erioed â’u clustffonau ymlaen, sy’n rhoi’r cyfle perffaith ichi gyfathrebu â nhw a chael eu sylw llwyr.

## Ambell air i gall ar gyfer podlediadau

- Defnyddiwch meicroffon da – dydyn nhw ddim yn ddrud ac maen nhw’n gwella ansawdd y sain
- Crëwch strwythur. Sawl un fyddwch chi’n eu gwneud a phryd fyddwch chi’n eu cyhoeddi?
- Anelwch i’ch podlediad fod rhwng 20 a 40 munud o hyd
- Rhowch frand i chi’ch hun – meddyliwch am deitl, logo a slogan bachog, a hyd yn oed jingl
- Cynlluniwch eich cynnwys. Rhowch wybod i’ch cynulleidfa beth rydych chi’n bwriadu ei ddweud a sut
- Lle bynnag y byddwch chi’n dewis lanlwytho’ch podlediad, gwnewch yn siŵr bod modd ei rannu i’ch platfformau eraill

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â’r tîm cyfathrebu:**

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk
02920 230 457
@YmchwilCymru
ymchwiliechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Podlediadau

# Peidiwch â gadael eich ymchwil ar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwil wedi'i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae'n rhaid i bobl allu ymdeimlo â'r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwil...

Eich stori ymchwil

Meddyliwch am eich cynulleidfa. Pwy ydyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw?

Cadwch bethau'n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi'n annog cynulleidfaoedd i ddysgu am eich ymchwil.

Beth ydy effaith eich ymchwil i'ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy'ch ffactor 'wow'? Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd orau'n creu emosiwn i'w cynulleidfa – dewch o hyd i'r 'wow' yn eich stori chi.

Mae cynulleidfaoedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy'r stori y tu cefn i'ch prosiect ymchwil?

I gael gwybod mwy, ewch i'r Map Trywydd Ymchwil yn ymchwiliechydagofalcymru.llyw.cymru